



SE5: Fformat ac Aelodaeth y Panel Adolygu Achos (Addasrwydd i Ymarfer)

1.1 Fel arfer, aelodau Panel Adolygu Achos (Addasrwydd i Ymarfer) fydd y canlynol;

- Cadeirydd: aelod uwch priodol o'r staff
- Dau aelod arall o'r staff
- Cynrychiolaeth allanol fel y bo'n briodol (e.e. cynrychiolaeth broffesiynol allanol, ymarferydd meddygol os bydd pryderon addasrwydd i ymarfer yn gysylltiedig ag ieched)
- Un o swyddogion Undeb y Myfyrwyr.

Cofnodir yr achos gan unigolyn sy'n gweithredu'n Ysgrifennydd i'r Panel Adolygu Achos.

Ni fydd y Cadeirydd nac o leiaf un aelod arall o'r panel wedi ymwneud yn flaenorol â'r achos penodol nac wedi cael unrhyw gysylltiad â'r myfyriwr dan sylw. Cymerir gofal i sicrhau cydbwysedd priodol yn aelodaeth y Panel Adolygu Achos a bod gwybodaeth broffesiynol briodol ar y panel.

1.2 Ni fydd yn bosibl i'r swyddog o Undeb y Myfyrwyr sy'n gweithredu'n aelod o'r Panel Adolygu Achos gynrychioli unrhyw barti yn ystod unrhyw gam o'r broses Addasrwydd i Ymarfer.

1.3 Mae'n bosibl defnyddio staff o'r Grŵp PCYDDS ehangach neu ddefnyddio aelodau panel allanol priodol. Er enghraifft, caiff y Panel Adolygu Achos wahodd cynghorydd proffesiynol o'r PSRB perthnasol yn gynghorydd.

1.4 Efallai y bydd gan Gyrrff Proffesiynol eu gofynion eu hunain ar gyfer Panel Adolygu Achos ac os felly, gellir amrywio'r aelodaeth uchod i fodloni'r gofynion hynny.

1.5 Gall union fformat y Panel Adolygu Achos amrywio'n ôl amgylchiadau'r achos. Hysbysir pob parti am fformat y cyfarfod, fel arfer heb fod yn llai na deng niwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod o'r panel.

1.6 Fel arfer bydd fformat y Panel Adolygu Achos fel a ganlyn:

- Aelodau'r Panel Adolygu Achos yn cwrdd ar wahân heb fod y myfyriwr na'r Swyddog Achosion yn bresennol i ystyried tystiolaeth a materion proses;
- Bydd y myfyriwr ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni'n ymuno â'r cyfarfod;
- Bydd y Swyddog Achosion yn ymuno â'r cyfarfod ac yn amlinellu'r achos pryder a chanfyddiadau'r ymchwiliad;
- Caiff y Panel Adolygu Achos holi'r Swyddog Achosion;
- Gofynnir i'r myfyriwr roi ei farn/barn ynghylch yr achos pryder a godwyd a chanfyddiadau'r ymchwiliad;
- Caiff y Panel Adolygu Achos holi'r myfyriwr. Bydd cyfle hefyd i'r myfyriwr ofyn unrhyw gwestiynau;

- Bydd unrhyw dystion yn ymuno â'r cyfarfod a gofynnir iddynt wneud datganiad mewn cysylltiad â'r achos pryder;
 - Caiff y Panel Adolygu Achos holi unrhyw dystion;
 - Bydd unrhyw dystion yn gadael y cyfarfod;
 - Gofynnir i'r Swyddog Achosion wneud datganiad terfynol;
 - Gofynnir i'r myfyriwr wneud datganiad terfynol;
 - Gofynnir i'r myfyriwr (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni) a'r Swyddog Achosion adael er mwyn caniatáu i'r Panel Adolygu Achos ystyried ei benderfyniad.
 - Gwahoddir y myfyriwr (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni) a'r Swyddog Achosion i ddod yn ôl i'r cyfarfod a bydd y Cadeirydd yn eu hysbysu ar lafar am benderfyniad y Panel. Bydd y myfyriwr yn gallu cyflwyno gosodiad ychwanegol ynghylch y penderfyniad.
- 1.7 Er gall tystion fod yn rhan o'r broses, disgwylir fel arfer yr ymgynghorir â'r holl dystion yn rhan o'r broses ymchwilio fel y'i nodir yn y Polisi Addasrwydd i Ymarfer fel bod yr holl dystiolaeth ar gael i'r panel ystyried yr achos yn fanwl yn y cyfarfod o'r Panel Adolygu Achos. Pan fo tystion yn cymryd rhan, hysbysir pob parti am enwau'r tystion a fydd yn bresennol cyn y cyfarfod o'r panel. Gofynnir i'r holl bartïon a ydynt yn bwriadu galw tystion i'r cyfarfod o'r panel.
- 1.8 Bydd modd cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog. Gall pob parti ofyn am hyn.
- 1.9 Caiff pob parti perthnasol wybod yn ffurfiol yn ysgrifenedig am ganlyniad yr achos ymhen pum diwrnod gwaith clir i ddyddiad y Panel Adolygu Achos.